**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDYFAELOG GYNHALIWYD YN Y NEUADD 5 HYDREF 2023 AM 7.30YH**

**1. Yn bresennol:** Y Cyng Shan Rees (Cadeirydd), Elfyn Williams, Janet Knott, Philip Davies, Nicola Jones, Cynghorydd Sir Tyssul Evans ac Arfon Davies (Clerc).

**Ymddiheuriadau:** Y Cyng Viv Davies, Carys Thomas, Rheinallt Jones, Meinir James, Jenny Jones ac Eifion Jones.

**2. Datganiadau Diddordeb**

Dim datganiadau.

**3. Cyfranogiad gan y Cyhoedd**
Nodwyd nad oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol ar yr achlysur hyn.

**4. Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar y 7fed Medi 2023.**

**5. Materion yn Codi**

1. **Prosiect goleuadau yn Ysgol Gyfun Bro Myrddin** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.
2. **Cais cynllunio, PL/02147 mewn eiddo yn ardal coetir - Idole i Pentrepoeth –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.
3. **Pryderon yn ymwneud â pharcio ar linellau melyn dwbl yn Llandyfaelog –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.
4. **FP29/4 Pentrepoeth** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.
5. **Materion Gorfodaeth Cynllunio cae yn Idole –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.
6. **PL/04973 – Stad Ddiwydiannol Gelligaeros, Idole –** Derbyniwyd diweddariad ar ddarparu cais cynllunio newydd ar gyfer y safle. Nodwyd.
7. **Gweithredu cyfyngiadau cyflymder 20mya –** Derbyniwyd e-bost gan breswylwyr yn Idole, Cwmffrwd a Llandyfaelog yn mynegi pryderon mewn perthynas â chyflymder traffig a lleoliad yr 20mya y tu allan i'w heiddo. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei chodi gyda'r Cyngor Sir i'w hystyried wrth adolygu'r terfynau cyflymder. Nodwyd.
8. **Damweiniau ym Mancycapel -** Derbyniodd y Cyngor ymateb bod yr Heddlu yn gwrthod darparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth o dan eithriadau ar gyfer Gorfodi'r Gyfraith a Gwybodaeth Bersonol. Nodwyd hyn. Parhawyd i aros am ragor o wybodaeth gan y Cyngor Sir ar gynigion ar gyfer terfynau cyflymder ym Mancycapel.
9. **Gwylio Cyflymder Cymunedol -** Cadarnhaodd y Clerc fod dau aelod o'r cyhoedd wedi dod ymlaen i gymryd rhan mewn Gwylio Cyflymder Cymunedol. Bydd gwirfoddolwyr pellach yn cael ei cheisio cyn cysylltu â'r heddlu ar y mater.
10. **Bin Capel Rama –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.

11. **Prosiect Ynni Bute** – Derbyniwyd gwybodaeth bellach gan y Grid Cenedlaethol mewn perthynas â’r cynigion ar gyfer yr is-orsaf mewn perthynas â maint, lleihau sŵn a phryderon ynglŷn â gwerth eiddo. Nodwyd.
12. **Ymweliad posib â Gwaith Trin Dŵr Carwe –** Arhoswyd am ddyddiad ar gyfer ymweliad. Nodwyd.
13. **Dilys Rees – Pen-blwydd yn 100 oed** – Bydd ymweliad yn cael ei gynnal ar 6ed Hydref gan Gadeirydd y Cyngor Cymuned ac Aelodau Ward Lleol. Nodwyd a chymeradwywyd pryniant tusw blodau.

**6. Gohebiaeth**

1. **Cyngor Sir Caerfyrddin –** Diweddariad i Gynghorau Cymuned a Thref ar weithrediad y ddeddfwriaeth 20mya. Nodwyd.
2. **Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda –** Adroddiad canfyddiadau'r ymgynghoriad ar yr opsiynau ar gyfer yr ysbyty gofal brys a gofal wedi'i gynllunio newydd arfaethedig yn ardal Hendy-gwyn ar Daf neu Sanclêr. Nodwyd.
3. **Un Llais Cymru –** Sesiynau hyfforddi Medi a Hydref. Nodwyd.
4. **Un Llais Cymru –** Hysbysiad o ymgynghoriad yr Ombwdsmon Cyhoeddus ar eu Polisi Cydraddoldeb 2023-2026. Nodwyd.
5. **Un Llais Cymru –** Cadarnhad o ganslo'r Cyfarfod Blynyddol oedd i'w gynnal ar 30ain Medi. Nodwyd.
6. **Cyngor Sir Caerfyrddin –** Fforwm Cyswllt Cynghorau Cymuned a Thref a gynhaliwyd ar 14eg Medi. Nodwyd.
7. **Cyngor Sir Caerfyrddin –** Diweddariad Cynghorau Tref a Chymuned. Nodwyd.
8. **Cyngor Sir Caerfyrddin –** Arolwg ar y Strategaeth Toiledau Lleol. Nodwyd.
9. **Archwilio Cymru –** Nododd y Clerc fod Ffurflen Flynyddol ar gyfer y Flwyddyn daeth i ben ar 31ain Mawrth 2023 wedi ei dychwelyd yn dilyn archwiliad gyda barn ‘ddiamod’ positif. Roedd y wybodaeth hon wedi'i hysbysebu yn y Gymuned fel yn ofynnol.
10. **Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys –** Bwletin newyddion. Nodwyd.
11. **Cylchgrawn Chwarae Dros Cymru –** Nodwyd.
12. **Un Llais Cymru –** Bwletin newyddion. Nodwyd.
13. **Llanelli Standard –** Rhifyn 53 o'r papur newyddion. Nodwyd.
14. **Cyngor Sir Caerfyrddin -** cau ffordd dros dro yr U2231 Llansaint, o bwynt 143 metr i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain o'i chyffordd â Phorthffordd yr C2119 am bellter o 680 metr i gyfeiriad gogledd-ddwyreiniol o ddydd Llun 6ed Tachwedd, 2023 i ddydd Mercher 8fed Tachwedd. Nodwyd.
15. **Un Llais Cymru** – Sesiynau ymgysylltu Sefydliad Bevan yn gwahodd aelodau o'r cyhoedd i ddweud eu dweud am Wasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru. Nodwyd.
16. **Banc Barclays** – Datganiadau, cafodd y cysoniad banc ei gydlofnodi gan y Cynghorydd Elfyn Williams.

**7. Cae Idole ac Amwynderau’r Cyngor**

Nododd y Clerc for y Cyngor wedi derbyn anfoneb am £28.35 mewn perthynas â TAW yn erbyn cyfanswm o £141.75 gan y cyfreithwyr oedd yn delio â’r hawliad am y tâl yswiriant ychwanegol oherwydd y ddamwain yng Nghae Idole. Parhaodd y Clerc i geisio cadarnhad beth oedd hyn yn ei gynrychioli.

Bydd ymweliad yn cael ei drefnu i Gae Idole i ystyried plannu coed posib yn lle'r coed a gollwyd oherwydd afiechyd Ash Die Back.

**8. Cytundeb yr Atgyweiriwr**

Cadarnhaodd y Clerc 28 awr wedi eu gweithio ym mis Medi gyda chyfanswm cost o £560.00, cymeradwywyd hyn. Cymeradwywyd taliad hefyd o £280.00 ar gyfer Medi ar gyfer gwaith a wnaed o dan y contract torri gwair yn Idole a Glanmorlais ar gyfer y flwyddyn 2023.

**9. Digwyddiadau Gymunedol 2023**

Trafododd y Cyngor y trefniadau ar gyfer Sul y Cofio.

**10. Adroddiad Cyllid 2023-24**

Cyflwynodd y Clerc adroddiad cyllideb chwarter 2il ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2023-24. Cynhaliodd y Cyngor y gwaith monitro cyllideb chwarterol a derbyniwyd yr adroddiad.

**11. Cynllunio**

1. **Hysbysiad o Apêl -** Tir gwag oddi ar Lon Santes Ann, Cwmffrwd, Caerfyrddin, SA31 2LZ - Caniatâd cynllunio amlinellol ar gyfer hyd at 23 o anheddau a gwaith cysylltiedig gan gynnwys gwelliannau priffyrdd oddi ar y safle (ailgyflwyno PL/01879). Nodwyd.

**12. Ceisiadau am Gymorth Ariannol**

1. **Nododd y Cyng Shan Rees a Janet Knott eu diddordeb yn y mater. Eisteddfod Gadeiriol Llandyfaelog –** Gohiriwyd tan gyfarfod nesaf y Cyngor.
2. **Cerebral Palsy Cymru –** Cytunwyd rhodd o £25.00.
3. **Urdd Gobaith Cymru Gorllewin Sir Gaerfyrddin -** Cytunwyd rhodd o £50.00.

**13. Cyfrifon**

**Cytunwyd y taliadau ganlynol:**

| 1 | Disgrifiad | Cyflog | Costau | Cyfanswm Gros | Treth wedi tynnu ffwrdd | YG wedi tynnu ffwrdd | Cyflog Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Arfon Davies | Cyflog Medi chostau | £679.06 | £26.00<br>£7.00<br>£6.00<br>£11.70 | £729.76 | £281.40 | | £448.36 |

| | | |
|---|---|---|
| **2. CTEM** | **£844.20** | Taliad Gorffennaf - Medi |
| **3. Michael Leefe** | **£560.00** | Taliad Hydref (gweler eitem 8) |
| **4. Michael Leefe** | **£280.00** | Torri gwair Medi (gweler eitem 8) |
| **5. Cerebral Palsy Cymru** | **£25.00** | Rhodd, gweler eitem 12.2 |
| **6. Urdd Gobaith Cymru** | **£50.00** | Rhodd, gweler eitem 12.3 |

**14. Materion arall a godwyd gan aelodau**

1. Nododd y Clerc cyswllt gan drigolion Llandyfaelog yn codi pryderon am wartheg yn teithio ar hyd y ffordd i mewn i'r pentref, yn achosi llanast ar y ffordd a difrod i'r ymyl. Bydd y Clerc yn gwneud y Cyngor Sir yn ymwybodol o'r mater.
2. Nododd y Clerc bod cronni dŵr wedi bod yn broblem eto rhwng Bryngors a Garthowen.
3. Nododd y Cadeirydd byddai Cinio Nadolig y Cyngor yn cael ei gynnal yn y Llew Coch ar yr 17eg Rhagfyr.

**Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor ddydd Iau 2il Tachwedd 2023.**